



THE QUEEN'S
ANNIVERSARY PRIZES
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION
2011

2012 2013

Adroddiad Blynyddol
Annual Report



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

Cynnwys

Contents

04	Rhagair y Cadeirydd	Chair's Foreword
06	Neges gan y Prif Weithredwr	Message from the Chief Executive Officer
09	Cip yn ôl ar y Flwyddyn	A Year in Review
10	Y Cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Nodau Strategol	Progress towards Strategic Goals
17	Llwyddiannau a Chyflawniadau	Successes & Achievements
22	Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid	Facts, Figures & Finance

Aelodau'r Bwrdd

Board Members

Dr Roy Bichan (Cadeirydd/Chair)

Dr Griff Jones (Is-Gadeirydd/Vice Chair)

Mr John Bellis

Mr Glyn Catley MBE

Mr Dilwyn Evans

Mrs Helen Halpin

Dr Ann Hynes

Mr Chris Jackson OBE

Mr Glyn Jones OBE

Mrs Mair Jones OBE

Cyngh/Cllr Wyn Jones

Mr Peter Lavin

Mrs Gwyneth Morus Jones (hyd/to 12.12)*

Mrs Shân Oliver

Mr Hedd Pugh

Cyngh/Cllr Goronwy Parry MBE (hyd/to 05.13)

Md. Raheem Rushton

Mr John Pierce Williams

Mr Alun Thomas

Mr David Williams


Mr Andy Billcliff (o/from 05.13)

Toby Prosser YH/JP - Swyddog Llywodraethu'r Grŵp
Grŵp Governance Officer

*ymadawedig/deceased

Lleoliadau'r Campysau

Campus Locations



Allwedd

Key

-  Campysau Coleg Llandrillo
Coleg Llandrillo Campuses
-  Campysau Coleg Menai
Coleg Menai Campuses
-  Campysau Coleg Meirion-Dwyfor
Coleg Meirion-Dwyfor Campuses

Rhagair y Cadeirydd

Chair's Foreword



Mae'n bleser gennyf adrodd bod Grŵp Llandrillo Menai, yn ystod ei flwyddyn weithredol lawn gyntaf fel un o golegau mwyaf y Deyrnas Unedig, wedi perfformio ar y lefel uchaf ac wedi derbyn cryn nifer o wobrau yn ystod y flwyddyn. Sonnir am rai o'r gwobrau hynny yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

During its first full academic year of operation as one of the largest colleges in the UK, I am delighted to report that Grŵp Llandrillo Menai performed at the highest level and achieved notable accolades throughout the year, some of which are detailed later in this report.

Cwblhawyd yn llwyddiannus y broses drawsnewid yng Ngogledd Orllewin Cymru, yn cynnwys y garreg filltir o uno Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai. Deilliodd hyn ar wasanaethau di-dor a gwell i bob myfyrwr ledled y Grŵp yn siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymateb yn gadarnhaol dros ben i'r cyfyngiadau economaidd dwys sy'n parhau i wynebu'r wlad. Mae'n batrwm o ran arloesi a newid, gan ymroi i ymateb i'r ysgogwyr economaidd sydd wedi effeithio ar bob cyflogwr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, a mynd i'r afael â hwy.

Yn rhan o bortffolio helaeth, mae'r Grŵp yn arwain y gwaith arloesol a wneir ar y cyd â dau ddarparwr blaenllaw sy'n cyflwyno hyfforddiant yn y gweithle, gan gynnig ystod eang o atebion arbenigol i hyrwyddo adfywio'r economi drwy gyfrwng hyfforddiant perthnasol ac amserol sy'n ymateb i ofynion y diwydiant ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a ddynodwyd. Bydd hyn yn parhau i fod yn sbardun ac yn rhan ganolog o waith y Grŵp.

The transformation process in North West Wales, with the landmark mergers between Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor and Coleg Menai, has been successfully completed, resulting in seamless and improved services for all students across the Grŵp in Conwy, Denbighshire, Gwynedd and Anglesey.

Grŵp Llandrillo Menai has responded very positively to the serious economic constraints that continue to face the country and stands as an exemplar of innovation and change, working to respond to and address the economic drivers which have affected all employers in both the private and public sectors.

As part of a vast portfolio, the Grŵp leads an innovative collaboration with two leading work-based training providers, offering a broad range of specialist solutions to promote economic regeneration through relevant and timely training that is responsive to industry and addresses identified local and national priorities. This will continue to be a key focus and driver for the Grŵp.



Nid yw'r sefydliad yn disgwyl llai na rhagoriaeth a phroffesiynoldeb y mhob maes y mae'n gweithredu ynddo, ac mae sicrhau'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl ledled y Grŵp yn deyrnged i'r gefnogaeth a rydd y Grŵp i'w staff, drwy annog pob un i ddatblygu ei sgiliau a'i arbenigedd yn ei waith.

Ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad diffuant i'n staff hynod broffesiynol am eu hymdrechion diflino yn annog ac yn cefnogi ein myfyrwyr i wireddu eu potensial ac i lwyddo yn ein colegau ac yn y gweithle; rhaid eu llongyfarch ar eu hymdrechion.

Diolchaf o galon hefyd i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, sy'n dyfalbarhau ac yn diogelu dyfodol y Grŵp mewn hinsawdd economaidd heriol a mwyfwy gwleidyddol gymhleth.

The institution expects no less than excellence and professionalism in all areas of its operation, and the achievement of the Investors in People standard across the Grŵp serves as testament to the support offered by the Grŵp to its staff, encouraging all to develop their skills and expertise as part of their work.

On behalf of the Board of Governors, I would like to express my sincere appreciation to our highly professional staff for their tireless efforts in encouraging and supporting our students to realise their potential and to achieve success within our colleges and in the workplace; their efforts are to be congratulated.

I also express my heartfelt thanks to fellow Board members who endure to challenge and safeguard the Grŵp's future in an increasingly complex political and challenging economic climate.



Dr Roy Bichan

Cadeirydd
Chair

Neges gan y Prif Weithredwr Message from the Chief Executive Officer

**Yn dilyn yr uno fis Ebrill 2012,
blwyddyn academiaidd 2012/13 oedd
blwyddyn weithredol lawn gyntaf
Grŵp Llandrillo Menai.**

**The Academic Year 2012/13 was the
first full year of operation for Grŵp
Llandrillo Menai, following the
merger in April 2012.**

Un o uchelgeisiau cyntaf y Grŵp oedd parhau i ddarparu addysg a chefnogaeth o'r radd flaenaf i'n holl fyfyrwyr a chleientiaid yn ystod y flwyddyn gyntaf, heb i'r uno effeithio er gwaeth ar brofiadau'r dysgwyr. Mae'n bleser nodi ein bod wedi llwyddo yn hynny o beth, gyda chanlyniadau'r dysgwyr a chanlyniadau cyffredinol y Grŵp ym maes Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith yn rhagori ar ganlyniadau 2011/12.

Yn arolwg Llais y Dysgwr, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cael sylwadau dysgwyr o bob cwr o Gymru ar eu profiadau ym maes addysg ôl-16, cafodd Grŵp Llandrillo Menai ganlyniadau ardderchog, gan gael rhai o'r sgorau uchaf yng Nghymru ym mhob cwestiwn. Rhoddodd y sgôr a gafwyd gan y dysgwyr am y dysgu a'r addysgu foddhad arbennig; yn sgil ymateb eithriadol ein dysgwyr, ni gafodd y canlyniadau gorau yng Nghymru.

Hoffwn nodi fy nioch i holl staff Grŵp Llandrillo Menai am eu rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth gwyb hwn i'n dysgwyr ar adeg o newid sylweddol.

Yn ystod 2012/13, dechreuodd lawer o fanteision yr uno ddod i'r amlwg. Ar y tudalennau a ganlyn, ceir manylion y manteision hyn mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r nodau strategol a osodd y Gorfforaeth yn ei Gynllun Strategol Tair Blynedd Cyntaf 2012-15.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ganolbwyntio ar rai meysydd allweddol y gellir eu hystyried yn llwyddiannau neilltuol yn 2012/13.

Sicrhaodd y Grŵp ganlyniad ariannol cadarn arall, sydd wedi atgyfnerthu ein sefyllfa gyllidol ac wedi sicrhau dyfodol cynaliadwy er gwaethaf amodau economaidd anodd, yn cynnwys toriadau mewn cyllid cyhoeddus. Cafodd trefnau cyfrifyddu FRS 17 effaith ar y gwarged a ddatganwyd, ond roedd y sefyllfa ariannol sylfaenol yn cymharu'n ffafriol iawn â chanlyniad y flwyddyn flaenorol. Llwyddodd y Grŵp hefyd i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.

One of the first ambitions of the Grŵp was to ensure the continued provision of high quality learning and support for all our students and clients during the first year of operation, without any adverse impact from the merger process on the learner experience. It is pleasing to note in that context that this was achieved, with results for learners and the overall results for the Grŵp in Further and Higher Education and Work-based Learning showing an improvement on the outcomes for 2011/12.

Participation in the Welsh Government's Learner Voice survey, which solicited the views of learners across Wales regarding their post-16 educational experience, produced excellent results for Grŵp Llandrillo Menai, with some of the highest scores in Wales being achieved for all questions. Particularly satisfying was the score for how well learners rated their teaching and learning; the response from our learners was exceptional, with the best results in Wales being recorded.

I would like to put on record my thanks to all the staff at Grŵp Llandrillo Menai for their contribution in providing this high level of service to our learners at a time of considerable change.

During 2012/13, many benefits of merger began to appear; these are detailed in the following pages as progress towards the strategic goals that were set by the Corporation in its first three-year Strategic Plan 2012-15.

I would like to take this opportunity to focus on a few key areas which can be regarded as particular achievements in 2012/13.

The Grŵp secured another strong financial outcome, which consolidated our funding situation and secured a sustainable future despite difficult economic conditions where public funding cuts are a feature. FRS 17 accounting procedures had an impact on the surplus declared but the underlying cash situation compared very well with the previous year's outcome. The Grŵp was also successful in generating additional funds from alternative sources.



Dechreuodd y Grŵp weithio ar ddau brosiect cyfalaf sylweddol: Adeilad y Ganolfan Brifysgol ar gampws Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos a'r Ganolfan Sgiliau ar ystâd Coleg Meirion-Dwyfor ar y Marian Mawr yn Nolgellau. Mae'r rhain yn ddau brosiect cyffrous a fydd yn darparu amgylcheddau dysgu o'r radd flaenaf i fyfyrwyr y Grŵp.

Mae cefnogi economi Gogledd Cymru'n flaenoriaeth bwysig i Grŵp Llandrillo Menai. I'r perwyl hwn, gwnaethom ad-drefnu ein darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn darparu un pwynt cyswllt i gyflogwyr ac yn wir, i ddysgwyr. Deilliodd hyn ar dwf yn y contract a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru ac ar rai canlyniadau trawiadol iawn, gyda thros 90% yn cwblhau'r fframwaith mewn chwech o'r deg maes dysgu lle'r ydym yn cynnig y ddarpariaeth dysgu yn y gweithle. Mae'r prosiect 'Dyfodol', sy'n ymwneud â sgiliau gweithio, wedi cefnogi bron i 4,000 o fusnesau bach yng Ngogledd Cymru drwy gyfrwng rhaglenni hyfforddi rhan-amser sy'n denu cymorthdaliadau gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r Grŵp wedi parhau i weithio'n llwyddiannus gyda chwmnïau angori yng Nghymru, yn cynnwys Horizon/Hitachi, RWE npower a Scottish Power.

I gloi, mae'n bleser o'r mwyaf cofnodi i ni sicrhau'r Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Grŵp yn gyffredinol fis Ebrill 2013. Mae hyn yn deyrnged wych i ysbryd a chymhelliad holl staff y Grŵp, a wnaeth ymateb yn gadarnhaol iawn i'r asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl mewn cyfnod o addasu i newidiadau a chanlyniadau'r uno.

Cyflawnwyd llawer yn ystod ein blwyddyn weithredol lawn gyntaf, ac yn awr mae Grŵp Llandrillo Menai mewn sefyllfa gadarn i wynebu heriau ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a geir yn y dyfodol.

Glyn Jones OBE

Prif Weithredwr
Chief Executive Officer

The Grŵp commenced work on two major capital projects: the University Centre Coleg Llandrillo (UCCL) building at Rhos-on-Sea and the Dolgellau Skills Centre development on the Marian Mawr estate of Coleg Meirion-Dwyfor. These are two impressive projects which will provide outstanding learning environments for students within the Grŵp.

Supporting the economy of North Wales is a key priority for Grŵp Llandrillo Menai. To this end, we reorganised our Work-Based Learning provision to provide a single point of contact for employers and indeed learners. This has led to a growth in the contract secured from Welsh Government and some very impressive outcomes, including framework completions of over 90% in six out of the ten learning areas in which we provide work-based learning offer. The Dyfodol workplace skills project has supported almost 4,000 small businesses in North Wales with subsidised training programmes part-financed by European Structural Funds. The Grŵp has continued to work successfully with anchor companies in Wales including Horizon/Hitachi, RWE npower and Scottish Power.

On a final note, it is very pleasing to record that we achieved the Investors in People Award for the Grŵp as a whole in April 2013. This is a great testament to the spirit and motivation of all staff within the Grŵp, who responded very positively to the Investors in People assessment whilst adjusting to the changes and consequences of the merger.

Much has been accomplished during our first full year of operation, and Grŵp Llandrillo Menai is now well placed to meet challenges and to maximise future opportunities.





Cip yn ôl ar y Flwyddyn A Year in Review

Yn dilyn uno Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai ar 1 Ebrill 2012, 2012/13 oedd blwyddyn weithredol lawn gyntaf Grŵp Llandrillo Menai. Mae Cenhadaeth a Gweledigaeth y Grŵp wedi bod yn sail i'r pentwr eithriadol o waith caled a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Cenhadaeth

Darparu addysg a hyfforddiant ardderchog i'n dysgwyr a'n cleientiaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gweledigaeth

Gweledigaeth gyffredinol Grŵp Llandrillo Menai yw bod yn:

- Ddarparwr profiadau dysgu a chyfraddau llwyddo rhagorol
- Cyflogwr ardderchog sy'n symblu, yn grymuso ac yn cefnogi ei staff
- Patrwm o ran darparu addysg ddwyieithog – a gydnyddir ledled Ewrop
- Ysgogwr yr economi leol ac economi Cymru
- Canolbwynt o ran gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Addysg Uwch, ysgolion ac awdurdodau lleol
- Cyfrwng i adfywio cymunedau lleol.

Created on 1 April 2012 by the merger of Coleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor and Coleg Menai, 2012/13 was the first full year of operation for Grŵp Llandrillo Menai. Its Mission and Vision have underpinned the exceptional amount of hard work that has taken place during the year.

Mission

To provide excellent education and training for our learners and clients locally, nationally and internationally.

Vision

The overarching vision for Grŵp Llandrillo Menai is to be:

- A provider of outstanding learning experiences and success rates
- An excellent employer that motivates, empowers and supports staff
- An exemplar deliverer of bilingual education – recognised across Europe
- An economic driver of the regional and Welsh economy
- A hub for partnership working with Higher Education, schools and local authorities
- An agent for regeneration of local communities.

Y Cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Nodau Strategol

Progress towards Strategic Goals

Mae'n bleser gan y Grŵp adrodd ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyrraedd ei nodau strategol.

The Grŵp is pleased to report that significant progress towards its strategic goals has been achieved.

1 Sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau rhagorol a chanlyniadau cyson ym mhob un o golegau'r Grŵp.

- O'u cymharu â 2011/12, dangosodd canlyniadau perfformiad allweddol y Grŵp am 2012/13 welliant ym mhob maes (gweler y adran Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid, tudalen 22).
- Yn ôl Arolwg Cynefino QDP a gynhaliwyd fis Tachwedd 2012, roedd 92.8% o'r 4,839 myfyriwr a gwlhaodd yr arolwg yn fodlon ar eu coleg.
- Dangosodd Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013 a gynhaliwyd ar ran AdAS gan Ipsos MORI fod sgorau'r Grŵp gyda'r gorau yn y sector ym mhob cwestiwn bron.
- Adolygwyd polisiau a gweithdrefnau, a chyflwynwyd rhai newydd, gan wneud defnydd o arferion gorau blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys Polisi a Fframwaith Ansawdd newydd y Grŵp, a Pholisiau/Gweithdrefnau o ran Cynnwys Dysgwyr, Hawliau Dysgwyr, Diogelu, Cwyno, Presenoldeb a Phrydlondeb.
- Cyflwynwyd cylchlythyr misol i staff, er mwyn rhoi iddynt y newyddion diweddaraf a gwybodaeth am weithgareddau, ac er mwyn rhannu arferion da.

To achieve excellent learner experience and consistent outcomes in each of the Grŵp's member colleges.

- The Grŵp's key performance results for 2012/13 showed an improvement in all areas, compared with 2011/12 (see Facts, Figures & Finance section, page 22).
- The QDP Induction Survey in November 2012 showed 92.8% of 4,839 students who completed the survey were satisfied with their college.
- The DfES Ipsos MORI Learner Voice Wales Survey 2013 showed the scores for the Grŵp to be close to the best in the sector for almost every question.
- Policies and procedures were reviewed and new ones introduced, drawing on previous best practice; these included the new Grŵp Quality Policy and Framework, Learner Involvement, Learner Entitlement, Safeguarding, Complaints Procedures, Attendance and Punctuality.
- A monthly staff newsletter was introduced, to keep staff up-to-date with news and activities and to share good practice.

2 Bod yn brif ddarparwr addysg a hyfforddiant dwyieithog ôl-16 yn Ewrop.

- Datblygwyd strategaeth ddwyieithrwydd gydlynol: Diffiniwyd 'dysgu dwyieithog' er mwyn sicrhau dull cyson o fynd i'r afael â chasglu data ynghylch dwyieithrwydd, a chyflwynwyd targedau er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ac asesu dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Derbyniodd 70 aelod staff hyfforddiant yn gysylltiedig â datblygu dwyieithrwydd, yn cynnwys wyth tiwtor a gymerodd ran yn y Cynllun Sabothol Cenedlaethol ym Mhrifysgol Bangor.
- Yng Ngholeg Menai a Choleg Llandrillo, rhoddodd chwech o fentoriaid dwyieithrwydd gefnogaeth i 18 o'u cyd-diwtoriaid mewn meysydd a ddynodwyd yn flaenoriaethau. Yn eu tro, bu'r tiwtoriaid hynny'n gweithio gyda 640 o ddysgwyr.
- Ehangwyd y cysyniad 'Tocyn Iaith', a ddefnyddiwyd yn flaenorol yng Ngholeg Menai i annog dysgwyr i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg, ar draws y Grŵp, gyda naw myfyriwr, un o bob coleg, yn ennill gwobr o £100. Yna, ar ddiwedd y flwyddyn, dewiswyd un prif enillydd o blith y rhain.
- Enillodd Coleg Menai Wobr Colegau Cymru 2013 am Ddwyieithrwydd yn sgil ei waith yn datblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ym maes Peirianeg, mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol.

To be the leading provider of bilingual post-16 education and training in Europe.

- A coherent bilingualism strategy was developed: 'Bilingual learning' was defined to ensure a consistent approach to bilingual data collection, and targets were introduced to increase Welsh language provision and for learner assessments in Welsh.
- Over 70 staff attended training associated with developing bilingualism, including eight tutors who undertook the National Sabbatical Scheme at Bangor University.
- In Coleg Menai and Coleg Llandrillo, six bilingualism mentors supported 18 fellow tutors in identified priority areas, who in turn worked with 640 learners.
- The 'Tocyn Iaith' concept, used previously at Coleg Menai to encourage learners to produce written work in Welsh, was extended across the Grŵp, resulting in nine winners of the £100 awards, three from each college plus an overall winner at the end of the year.
- Coleg Menai won the 2013 Colegau Cymru Award for Bilingualism for its work in developing bilingual provision in the field of Engineering, in collaboration with local schools.



3 Buddsoddi yn ein staff ar bob lefel a'u galluogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

- Yn dilyn adolygiadau ac ymgynghori, cytunwyd ar bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol i'r Grŵp, ac fe'u cyflwynwyd.
- Allan o 8,008 cais i fynd i ddigwyddiadau datblygu staff, yn fewnol ac yn allanol, cymeradwywyd a chynhaliwyd 7,570 digwyddiad. Roedd y ffigurau hyn yn cynnwys 1,091 (allan o 1,157 cais) a aeth i ddigwyddiadau datblygu i reolwyr, a 679 a dderbyniodd hyfforddiant ym maes diogelu.
- Darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i staff sy'n cyflwyno ac yn asesu Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach.
- Sefydlwyd amrediad eang o grwpiau Gorchwyl a Gorffen a grwpiau Ymgynghorol er mwyn rhannu syniadau a chytuno ar ddulliau gweithredu newydd.
- Cyflwynwyd y dyddiau Adolygu a Gwerthuso (RED Days), yr arferid eu cynnal yng Ngholeg Llandrillo, ar draws y Grŵp, er mwyn galluogi timau cwricwlaid y tri choleg i gyfarfod bob tymor a rhannu arferion da.
- Rhoddwyd rhaglen helaeth o weithgareddau adolygu, integreiddio, uwchraddio a datblygu systemau TG newydd ar waith, a deilliodd hynny ar gyflwyno llawer o systemau newydd ledled y Grŵp.
- Mewn asesiad a gynhaliwyd fis Ebrill 2013, llwyddodd y Grŵp i gwrdd â'r safonau Buddsoddwyr mewn Pobl, gan arddangos enghreifftiau o arferion gorau mewn rhai meysydd.

To invest in and enable our staff at all levels to provide an excellent service.

- Human Resources policies and procedures were agreed and introduced for the Grŵp, following reviews and consultation.
- Out of 8,008 applications to attend internal and external staff development events, 7,570 were approved and took place. These figures include 1,091 attendances at management development events (out of 1,157 applications) and 679 attendances at safeguarding training.
- A comprehensive programme of staff training was provided for staff delivering and assessing Essential Skills Wales and the Wider Key Skills.
- A wide range of Task & Finish and Staff Consultation groups were set up to share ideas and agree new approaches.
- Coleg Llandrillo's Review and Evaluation (RED) Days were introduced across the Grŵp, to enable curriculum teams from the three colleges to meet on a termly basis and share good practice.
- An extensive programme to review, integrate, upgrade and develop new IT systems was carried out, resulting in many new systems being introduced across the Grŵp.
- The Grŵp was successfully assessed against the Investors in People standard in April 2013, with emerging areas of best practice.

4 Sicrhau bod gan ein dysgwyr y sgiliau hanfodol i'w harfogi ar gyfer dinasyddiaeth a bywyd gwaith cynhyrchiol.

- Cyflwynwyd rhaglen o weithgareddau Cyfoethogi Dysgwyr, ac fe'i cryfhawyd a'i hatgyfnerthu ar gyfer 2013/14.
- Parhaodd cymhwyster Bagloriaeth Cymru i fod yn gyfrwng dysgu am ddinasyddiaeth a sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith ac â'r gymuned.
- Yn y tri choleg, safonwyd y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau i Ddysgwyr.
- Datblygwyd Cynllun Gwella Llythrennedd, SAG (Sillafu, Atalnodi a Gramadeg) a oedd yn cynnwys canllaw marcio, dogfennau arweiniol, posterï ac ysgol lythrennedd.
- Datblygwyd system olrhain electronig, sef 'e-Drac', er mwyn ei chyflwyno fis Medi 2013. Mae'n hollol gydnaws â systemau'r Grŵp, ac mae'n galluogi tiwtoriaid i gytuno gyda'r dysgwyr ar gynlluniau gweithredu a thargedau mewn meysydd sy'n cynnwys Llythrennedd a Rhifedd, ac i olrhain cynnydd ar lefel asesiadau.

To ensure that our learners have the essential skills to equip them for citizenship and a productive working life.

- A programme of Learner Enrichment activities was introduced, and strengthened and consolidated for 2013/14.
- The Welsh Baccalaureate qualification continued to provide a vehicle for learning about citizenship and other work and community-related skills.
- The support and services provided by Learner Services were standardised across the three colleges.
- A Literacy Improvement Plan, SPaG (Spelling, Punctuation and Grammar) was developed, which included a marking guide, guidance documents, posters and a literacy ladder.
- A new electronic tracking system, 'e-DRAC', was developed for introduction in September 2013. Integrating fully with Grŵp systems, it enables tutors to agree action plans and targets with learners, including Literacy and Numeracy, and to track progress at assessment level.



5 Datblygu cwricwlwm Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a dyheadau a blaenoriaethau economaidd Cymru.

- Sefydlwyd Strategaeth Cwricwlwm sy'n cydbwysu'r angen am gwricwlwm cydlynol gyda'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i gwrdd ag anghenion lleol.
- Datblygwyd Llawlyfr Cynllunio a Datblygu Cwricwlwm, gan gynnwys prosesau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn cynllunio a datblygu'r cwricwlwm.
- Sefydlwyd Grwpiau Cwricwlwm ac Ansawdd er mwyn sicrhau bod yr arbenigwyr sy'n cyflwyno'r pynciau'n cael y gair cyntaf mewn penderfyniadau ynghylch y cwricwlwm.
- Cynlluniwyd arlwy'r cwricwlwm ar draws y Grŵp drwy gyfrwng y Cwricwlwm Pwnc a'r Grwpiau Ansawdd.
- Gwnaed arolwg strategol o Addysg Uwch ar draws y Grŵp.

To develop a Further Education and Higher Education curriculum which reflect local priorities and the economic aspirations and priorities of Wales.

- A Curriculum Strategy was established that balances the need for curriculum cohesion with the flexibility to meet local needs.
- A Curriculum Planning & Development Handbook was developed with agreed processes and procedures for curriculum planning and development.
- Subject Curriculum and Quality Groups were established to ensure curriculum decisions begin with the subject delivery experts.
- The curriculum offer was mapped across the Grŵp via the Subject Curriculum and Quality Groups.
- A strategic review of Higher Education across the Grŵp was carried out.

6 Cefnogi datblygiad economaidd Gogledd Cymru drwy gynnig gwasanaeth cynhwysfawr ac integredig sy'n ymgysylltu â chyflogwyr ac yn datblygu busnesau.

- Cyfunwyd timau dysgu seiliedig ar waith, yr oedd eu contractau'n werth £11.2 miliwn ar y cyd, ar draws y Grŵp.
- Llwyddodd 88% i gyflawni fframwaith Prentisiaeth.
- Llwyddodd y criw cyntaf o brentisiaid Cwmni Prentis Menai i gael swyddi parhaol.
- Denodd y Consortïwm Dysgu Seiliedig ar Waith y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr newydd, gyda 2,577 yn dechrau yn ystod 2012/13.
- Cofrestrodd dros 300 o gwmnïau newydd o Ynys Môn a siroedd Conwy, Dinbych a Gwynedd, ar brosiect Dyfodol.
- Ymwelodd tîm y Grŵp o Ymgynghorwyr Datblygu Busnes â lleoliadau cyflogwyr tua 1,800 o weithiau.
- Cafodd 855 o gyflogwyr hyfforddiant gan Bwynt Busnes a Linc Menai.

To support the economic development of North Wales through a comprehensive and integrated employer engagement and business development service.

- Work-based learning teams were merged across the Grŵp, with a combined contract value of £11.2 million.
- Apprenticeship framework achievement reached 88%.
- The first cohort of Cwmni Prentis Menai apprentices all progressed into permanent employment.
- The Work-based Learning Consortium delivered a record number of starts, with 2,577 during 2012/13.
- Over 300 new companies from Anglesey, Conwy, Denbighshire and Gwynedd signed up to the Dyfodol project.
- The Grŵp's team of Business Development Advisers undertook approximately 1,800 visits to employer premises.
- 855 employers undertook training with Business Point and Linc Menai.

7 Denu cymaint â phosibl o gyllid ac incwm gan Lywodraeth Cymru, ffynonellau Ewropeaidd, mentrau, recriwtio myfyrwyr o dramor, gweithgareddau masnachol a chaffael yn effeithlon.

- Ar gyfer 2012/13, llwyddwyd i ddenu incwm o £3.1 miliwn ar gyfer prosiectau o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn bennaf) (denwyd £2.35 miliwn yn 2011/12). Dyfodol (£1.4 miliwn) a Photensial (£486,000) oedd y prosiectau a gyfrannodd fwyaf.
- Yn ddiweddar, estynnwyd oes prosiect Dyfodol (a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) hyd at fis Medi 2015, a bydd yn derbyn £1.2 miliwn o gyllid ychwanegol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Fis Hydref 2012, dyfarnwyd £467,271 i'r Grŵp dros gyfnod o dair blynedd i arwain Canolfan Ranbarthol Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer Entrepreneuriaeth Ieuencid yng Ngogledd-orllewin Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor.
- Derbyniodd Adran Ryngwladol y Grŵp ffioedd gwerth £380,000, ynghyd ag £11,000 yn sgil yr Ysgol Haf a drefnodd.
- Llwyddwyd i ennill chwe thendr o dan gynllun Cronfa Blaenoriaethau Sgiliau Sector (Cymru Gyfan), yn cynnwys cyllid i ddatblygu rhwydwaith a hyfforddiant i'r diwydiant creadigol mewn trefi sy'n rhan o'r ymgyrch 'Y Stryd Fawr Ffyniannus'.
- Ymhlith prosiectau eraill a gyfrannodd i'r incwm allanol ychwanegol, roedd Prosiect Dysgu Gydol Oes Grundtvig (£21,677) a rhaglen Ysgol Aead Le Quy Don (£10,150).
- Yn rhan o Brosiect Cyflogadwyedd (£15,253) gan Gyngor Sgiliau Prydain, a gynhaliwyd yn llwyddiannus yn Ninas Ho Chi Minh, Fietnam, cynorthwyodd tri aelod o staff Coleg Llandrillo i hyfforddi 37 myfyrwr o Brifysgol Cludiant Fietnam a'r Coleg Galwedigaethol Morol.
- Cyflwynwyd system 'Prynu i Dalu' i'r holl staff, a gwnaed arbedion o 5.2% drwy gaffael yn effeithlon.

8 Cynnal a datblygu amgylcheddau dysgu cynaliadwy, sy'n ysbrydoli ac sy'n cynnwys uwch-dechnolegau.

- Datblygwyd Porth y Grŵp a Phorth y Dysgwyr i roi mynediad hwylus i amrywiaeth o gyfleusterau, cynlluniau ac adroddiadau, gyda Phorth y Grŵp yn mynd yn fyw yn ystod y flwyddyn a Phorth y Dysgwyr yn mynd yn fyw fis Medi 2013.
- Wedi i Goleg Menai gael Lefel Pedwar yn arolwg y Ddraig Werdd fis Gorffennaf 2012, llwyddodd Coleg Llandrillo i aros ar Lefel Pump fis Ionawr 2013, a chafodd Coleg Meirion-Dwyfor sgôr dda ar Lefel Pedwar, gan roi'r sefydliad mewn sefyllfa dda ar gyfer sicrhau Lefel Pump pan gaiff y Grŵp asesiad y Ddraig Werdd yn y dyfodol.
- Cwblhawyd y broses o sicrhau cyllid ar gyfer Canolfan Brifysgol Coleg Llandrillo, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol Bangor, a phenodwyd contractwyr i ddechrau ar y gwaith fis Awst 2013.

Roedd y rhaglen Ystadau helaeth yr aed i'r afael â hi yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Bangor (Friars):

- Gwnaed addasiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fyfyrwyr anabl fynychu'r cyrsiau trin gwallt, harddwch a lletygarwch a gynhelir ar y campws hwn.

Dolgellau:

- Ar safle'r Marian Mawr, datblygwyd cynlluniau a derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (yn amodol ar gytundeb cyllid AdAS) i brynu ac addasu hen unedau diwydiannol (sydd wrth ymyl yr unedau adeiladwaith presennol) yn ganolfan beirianeg ac adeiladwaith newydd.

To maximise funding and income generation from Welsh Government, European sources, enterprise, international recruitment, commercial activities and efficient procurement.

- Project income generated from European Structural Funds (mainly ESF) for 2012/13 was £3.1 million (£2.35 million for 2011/12), the main project contributors being Dyfodol (£1.4 million) and Potensial (£486,000).
- The Dyfodol European Social Fund (ESF) project was recently granted an extension until September 2015, with an additional £1.2 million ESF funding.
- In October 2012, the Grŵp was awarded £467,271 over a three year period to lead the North West Wales Youth Entrepreneurship Further & Higher Education (YES) Regional Hub in partnership with Bangor University.
- The Grŵp's International Department generated fees of £380,000, plus £11,000 through its Summer School.
- Six successful tenders were won under the All Wales Sector Skills Priority Fund (SSPF) initiative, including funding for the development of a creative industry network and training for 'Thriving High Street' towns.
- Other projects contributing to additional external Income were Grundtvig Lifelong Learning Project (£21,677) and Le Quy Don Winter School programme (£10,150).
- Under a British Council Skills for Employability Project (£15,253) delivered successfully in Ho Chi Minh City, Vietnam, three Coleg Llandrillo staff helped to train 37 students from Vietnam's University of Transport and the Maritime Vocational College.
- An automated 'Purchase 2 Pay' system was introduced for all staff, and 5.2% savings were made by efficient procurement.

To maintain and develop sustainable and inspiring learning environments with a high technology specification.

- Grŵp and Learner portals were developed to provide simple access to a range of facilities, plans and reports, with the Grŵp Portal going live during the year and the Learner Portal going live in September 2013.
- Following Coleg Menai's award of Green Dragon Level Four in July 2012, Coleg Llandrillo retained their Level Five award in January 2013 and Coleg Meirion-Dwyfor came out with a strong Level Four, positioning the organisation well for a future Grŵp assessment at Green Dragon Level Five.
- Funding for the University Centre Coleg Llandrillo (UCCL), developed with Bangor University, was finalised and contractors were appointed to start work in August 2013.

An extensive Estates programme during the year included:

Bangor (Friars):

- Alterations to make it easier for disabled students to attend the hair, beauty and hospitality courses delivered on this campus were carried out.

Dolgellau:

- At the Marian Mawr site, plans were developed and approval received from the Welsh Government (subject to DfES funding agreement) for the purchase and adaptation of former industrial units (located adjacent to the existing construction-based units) into a new engineering and construction centre.

Glynllifon:

- Ailwampwyd y felin lifio bresennol ac mae bellach yn cynnwys cyfarpar o'r radd flaenaf ynghyd â systemau tynnu aer er mwyn darparu gweithdy diogel a hynod effeithlon.
- Cwblhawyd sied wartheg, ar gynllun 'tŷ crwn', ynghyd â chladdfeydd silwair mawr, a bydd y cynllun mewnol gwell yn hwyluso'r gwaith o symud a thrin da byw.

Llangefni:

- Ailwampwyd adain ddwyreiniol hen ysgol Penrallt, gan greu cyfleusterau ar gyfer cynnal cyrsiau ym maes trin gwallt a lletygwrch i bobl ifanc na fyddent, fel arall, mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET).
- Yn estyniad i'r Ganolfan Technoleg Bwyd bresennol, codwyd cyfleuster arbenigol sy'n darparu gwasanaethau i fusnesau. Mae yno tua 50 aelod staff a oedd, cyn hynny, wedi'u lleoli mewn rhannau eraill o'r dref.

Llandrillo-yn-Rhos:

- Cwblhawyd rhaglen waith i adnewyddu holl rannau mewnol Bloc Cinnel, gan gynnwys gosod lifft i wella mynediad i'r anabl.
- Ledled y campws, cwblhawyd rhaglen addurno eang, y tu mewn a'r tu allan.

Glynllifon:

- The existing sawmill was refurbished with state-of-the-art sawmill equipment and extraction systems to provide a safe and highly efficient workshop.
- A new 'roundhouse' cattle shed was completed, together with large silage clamps, with better movement and handling of livestock resulting from the improved internal layout.

Llangefni:

- The east wing of the former Penrallt school was refurbished to create facilities to deliver hair and hospitality-related courses to young people otherwise Not in Education, Employment or Training (NEET).
- A new specialist services-to-business facility was constructed as an extension to the existing Food Technology Centre, to house around 50 staff previously located in other parts of the town.

Rhos-on-Sea:

- A programme of works to refurbish all internal areas of the Cinnel block, including the installation of a lift to improve disabled access, was completed.
- An extensive programme of internal and external decoration across the campus was carried out.

9 Ysgogi cydweithio a thrawsnewid, a bod yn ganolbwynt o ran gweithio mewn partneriaeth ym maes addysg a hyfforddiant ôl-14.

- Parhaodd y partneriaethau 14-19 ledled y Grŵp i weithredu'n effeithiol, gyda threfnu amserlenni ar y cyd yn rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr. Roedd gwaith Coleg Menai gydag 11 ysgol yn un o'r prif resymau pam yr enillodd Wobr Beacon am 'Partneriaethau Coleg/Ysgol'.
- Aeth y Grŵp ati i sefydlu Grŵp 14-19, sy'n cynnwys rheolwyr y coleg a Chydlynwyr Rhwydwaith 14-19 pob sir y mae'r rhwydwaith yn gweithio ynddi (siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd ac Ynys Môn) er mwyn datblygu dull cydlynol o fynd i'r afael ag addysg i rai 14-19 oed ar draws y dalgylch a'r campysau.
- Cefnogodd y Grŵp yr ymgyrch i ganoli'r gweithgarwch ôl-16 yn Llangefni, ac o bosibl yn Arfon, a daeth yn bartner canolog yng nghonortiw mewn Ôl-16 newydd Gwynedd a Môn.
- Canolbwyntiodd y Grŵp ar gryfhau campysau Dinbych a'r Rhyl, yn cynnwys Chweched y Rhyl, yng nghyd-destun codi adeiladau newydd ac ad-drefnu ysgolion yn y Rhyl a Dinbych.
- Yn dilyn arolwg llwyddiannus yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) ac yn sgil cwblhau cynlluniau'r Ganolfan Brifysgol yng Ngholeg Llandrillo, atgyfnerthwyd y berthynas â Phrifysgol Bangor. Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu'r berthynas ymhellach yn cynnwys gweithgaredd rhyngwladol a'r Ganolfan Rheolaeth ym Mhrifysgol Bangor.
